# Llyfrau Rhos Point

**85 Y Promenade, Llandrillo-yn-Rhos,**
**Bae Colwyn LL28 4PR**
**Rheolwyr: Gwyn a Beryl Morris**
**Ffôn: (01492) 545236 e-bost: rhos.point@btinternet.com**

1. *Canrif o Hanes Achos Methodistiaeth yn Nhanygrisiau 1809-1909*. David O. Hughes. c.m. Da iawn. 9.00
2. *Y Ford Gron*. Aml rifyn o gyfrolau 1, 2 a 3.: £5 yr un.
3. *Teithio'r Cyfandir*. Syr O.M. Edwards. c.c. Da iawn. 4.00
4. *Cywyddau Cymru*. Gol. Arthur Hughes. Jarvis & Foster, 1926. c.c. Da iawn. 10.00
5. *Barddoniaeth William Llŷn*. J.C. Morrice. c.c. Da iawn. Jarvis & Foster, 1908. 15.00
6. *Gweledigaethau Y Bardd Cwsg*, Ellis Wynne. Gol. J. Morris Jones. c.c. Da iawn. Jarvis & Foster, 1898. 12.00
7. *Cofiant a Barddoniaeth Ben Bowen*. Gol. David Bowen (Myfyr Hefin) Cyhoeddwyd gan Y Golygydd, 1904. c.c. Da iawn. 10.00
8. *Ye Eurgrawn Wesleyaidd 1841*. Cyfrol 33 o'r Dechreuad. Robert Owen, Llanidloes. Clawr ¼ lledr. 380tud. Da iawn. 30.00
9. *John Williams 1840-1926* (Cymraeg a Saesneg). Prif.Cymru. 1952. c.m. 4.00
10. *Tomos Prys o Blas Iolyn 1564?-1634* (Cymraeg a Saesneg). Prif.Cymru. 1964. c.m. 4.00
11. *Geiriadur Termau*. Gol. Jac L. Williams. Gwasg Prif.Cymru. 1973. c.c. s.l. Da iawn. 5.00
12. *Ychydig o Gerddi gan Huw Llewelyn Williams*. c.c. Da iawn. 1957. 3.00
13. *Cofiant Owen Morgan Edwards*. Cyf.1 1858-1883. Ab Owen, Aberystwyth. 1937. c.c. s.l. Da iawn. 8.00
14. *Y Crefftwr yng Nghymru*. Iorwerth Peate. c.c. Da iawn. Gwasg Aberystwyth. 10.00
15. *Hanes yr Annibynwyr yng Ngholwyn a'r Cylch 1804-1915*. Gyda darluniau. Penllyn Jones a D.O. Williams. c.c. Da iawn. 10.00
16. *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940*. c.c. s.l. Da iawn. 45.00
17. *Y Llinyn Arian*. Agweddau o Fywyd a Chyfnod Thomas Gee 1815-1898. Ieuan Wyn Jones. c.c. s.l. Fel newydd. 9.00
18. *John Saunders Lewis*. Y Gyfrol Gyntaf. D. Tecwyn Lloyd. c.c. s.l. Fel newydd. 12.00
19. *Bywyd a Gwaith John Dyfnallt Owen*. Geraint Elfyn Jones. c.c. s.l. Fel newydd. 5.00
20. *Yr Undeb*. Hanes Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 1872-1972. c.c. s.l. Fel newydd. 5.00
21. *Y Gair a'r Genedl*. Cyfrol Deyrnged i R. Tudur Jones. E. Stanley John (Gol.) c.c. s.l. Fel newydd. 7.00
22. *Efrydiau Beiblaidd Bangor 4*. Eryl Wynn Davies. c.c. s.l. Fel newydd. 5.00
23. *Teithiau Madoc* (Madoc o Fôn) T. Madoc Jones. c.c. s.l. Da iawn. 10.00
24. *Eisteddfod Bodran* a *Gan Bwyll*. Dwy gomedi gan Saunders Lewis. Gwasg Gee. Awst 1952. Arg.1af. c.c. s.l. Da iawn. 15.00
25. *Gwarchod y Gair*. Cyfrol Goffa y Parch Griffith Thomas Roberts. Owen E. Evans (Gol.) c.c. s.l. Fel newydd. Gwasg Gee 1993. 6.00
26. *Owain Glyndŵr*. Llewelyn Williams. c.c. s.l. Da iawn. 4.00
27. *Crefftwyr Gwlad*. Geraint Jenkins. c.c. s.l. Da iawn. Gomer 1971. 6.00
28. *The Light of Britannia*. Owen Morgan (Morien). The Mysteries of ancient British Druidism Unveiled. The original source of Phallic Worship Revealed. The Secrets of the Court of King Arthur Revealed. The Creed of the Stone Age Restored. The Holy Grail Discovered in Wales. Daniel Owen & Co. c.1900. Red Boards. Gold lettering to front & spine. 430pp. 200.00
29. A Selection from the *Private Tern Press*, Market Drayton, Shropshire.
    a) *The Nine Herbs Charm*. Edited by Bill Griffiths. Ills by Mary Parry. Brown boards. Fine as new. An Edition of 100 bound and hand tinted (8 illus) copies on Basingwerk Parchment. Published 1981 of which this is No. 16. Arwyddwyd. 60.00
    b) *Songs of A New Taliesin*. Poems by Peter Abbs and eleven wood lino cuts by Nicholas Parry. Dec cloth binding. Pub. 1979. An edition of 90 copies of which this is No. 34 in Caslon type on Abbey Mills paper. Arwyddwyd. Fel newydd. 95.00
    c) *Sir Orfeo* by Nicholas & Mary Parry. 8 woodcut ills. Pub. 1980. ¼ leather and brown boards. Large format. As new. It tells of the anonymous Middle English Romance, with strong Celtic Traditions. One of only 18 copies printed on Chilham Paper (of a total edition of 95). This is No. 17. Arwyddwyd. 50.00
30. *Sale Catalogue* of the sale of the entire appointments & antiques of The Palace of St. Asaph, 1934. 38tud. Da iawn. 12.00
31. *Druidic Teachings*. D. Jeffrey Williams. 1932. 16tud. Pamffled. Da. 8.00
32. *Pontnewydd Cave*. A Lower Palaeolithic Hominid Site in Wales. 1st report. H. Stephen Green. H/B D/W VG/VG Nat. Museum of Wales. 1984. 25.00
33. *Calendar of the Caernarvonshire Quarter Sessions Records*, Vol.1 1541-1558. W. Ogwen Williams (Ed.) Caernarvonshire Hist.Soc. 1956. 15.00
34. *Shrewsbury*. A Historical & Topographical Account of the Town. Thomas Auden. 1905. 1st ed. 25.00
35. *Gossiping Guide to Wales* (N/Wales & Aberystwyth) Over 30 maps, plans and illus. 1914. Da iawn. 14.00
36. *Colwyn Bay Before the Houses Came*. George Porter. Da iawn. 120.00
37. *A History of Wrexham*. A.H. Dodd. Hughes a'i Fab. 1957. 40.00
38. *The Highway that made History*. The story of Conwy's Revolutionary Tunnel & Expressway. Card covers. Da iawn. 6.00
39. *Historic Notices* with Topographical & Other Gleanings Descriptive of the Borough & County Town of Flint. Henry Taylor. 1833. Elliot Stock. Da iawn. 140.00
40. *Butterflies & Moths at Home & Abroad*. H. Rowland Brown. 21 full page coloured plates. Da iawn. 60.00


# Carthen Pwllheli (parhad o dudalen 7)

Rhydygwystl, Chwilog ac fe aeth John, mab James Griffith, yno i fyw. Yn 1927 trosglwyddwyd rheolaeth y ffatri i John Griffith a bu'n ei chynnal hyd tua canol yr 1930au pan werthwyd yr adeiladau er mwyn sefydlu ffatri laeth, sy'n enwog am, ymhlith pethau eraill, ei chaws, fel Caws 'Hen Sir (Old Shire)', o safon uchel a geir ar werth mewn archfarchnadoedd mawr ledled Prydain.

Ar hyn o bryd wyddys ddim sut y clywodd John Griffith Jones, perchennog Melin Wlân Pwllheli, am y garthen, ond ym mis Chwefror 1895 sicrhaodd hawl breiniol ar y patrwm. Diolch i Mrs Rhian Owen o Cilgwyn, Efailnewydd, Pwllheli, am ddarparu copi ohono. Ym meddiant yr Amgueddfa Werin mae llun o weithwyr Ffatri Wlân Pwllheli, un y gellir yn sicr ei ddyddio i ail hanner yr 1890au, sy'n dangos un o'r carthenni yn glir. Diolch i'r Amgueddfa am yr hawl i atgynhyrchu'r llun.

Ffatri Wlân Pwllheli, felly, oedd yn debyg o fod y lle cyntaf i feddwl am gynhyrchu'r garthen ar raddfa masnachol, ond y mae'n bosib fod gan rhywun ymhlith darllenwyr *Y Casglwr* wybodaeth y gellid gyda mantais ei ychwanegu at yr hanes sydd yn yr erthygl hon. Byddai'n ddiddorol pe gellid cael rhagor o wybodaeth am John Roberts, ynghyd ag am y posibilrwydd bod y garthen wreiddiol wedi cael ei chyflwyno i ryw berson pwysig.

Yn y cyswllt hwn, sicrhawyd gwybodaeth gan Mrs Hilton Jones o Plympton, Dyfnaint, aelod o deulu enwog Davies-Bryan, Caernarfon a Chairo, am draddodiad teuluol mai ei thaid, Edward Davies-Bryan, oedd yr un a roddodd yr archeb i wneud y garthen wreiddiol i John Roberts. Roedd gan y teulu ddiddordeb mawr yn nyfodol Coleg Aberystwyth ac, yng nghanol yr 1880au, bu Joseph Davies Bryan, brawd Edward Davies Bryan, yn fyfyriwr yno. Yn 1929 fe brynodd hwnnw 87 erw o dir Penglais a'i gyflwyno i'r Coleg. Yn ddiweddarach enwyd un o neuaddau newydd ysblennydd y Coleg yn Neuadd Davies Bryan. Tybed, felly, a luniwyd y garthen i gofnodi cyfnod Joseph Davies Bryan yn y Coleg? Mae'n bosib fod y brodyr Davies- Bryan wedi gwerthu'r garthen yn eu siop yng Nghairo.

Tra'n olrhain yr hanes canfyddwyd bod rhai o'r carthenni coch a wnaed ym Mhwllheli ar wasgar mewn llawer man. Ar wahân i'r un sydd yn Amgueddfa'r Diwydiant Gwlân, gwyddys am ddwy ohonyn nhw yn Llŷn, un ym Mangor, ac un ym meddiant Mrs Hilton Jones. Mae rhagor yn sicr o ddod i'r golwg, rhai gan bobol sydd heb syniad yn y byd y gellir fod gwerth sylweddol ar eu heiddo. Gwerthwyd un garthen o'r math hwnnw yn Sotheby's yn weddol ddiweddar am £350. Os mai un o rai Trefriw oedd honno: fe fyddai un a wnaed ym Mhwllheli yn debyg o fod yn ddrutach. Wyr neb beth, mewn gwirionedd, ddaw i'r golwg mewn ocsiwn, na pha bris fydd raid ei dalu. Prynodd un aelod o deulu Ffatri Pwllheli lond bocs o amrywiol bethau yn rhad. Wedi mynd adref a dechrau twrio drwy'r bocs beth oedd yn gorwedd yn y gwaelod, wedi'i phlygu'n ofalus, ond un o garthenni Pwllheli. Mae'n werth ystyried beth all fod allan o'r golwg mewn aml i lofft.

D. G. LLOYD HUGHES

# CLWYF Y CYFRESI 2
# BRYNLEY F. ROBERTS

*(Parhad o dudalen 8)*

20. E Tegla Davies, *Dechrau'r Daith*, Medi 1943 (2 arg. Tachwedd 1943, 3 arg. 1947).
21. G E Breeze, *Cwlwm y Dialydd*, Tachwedd 1943.
22. E Llwyd Williams, *Tua'r Cyfnos*, Tachwedd 1943 (2 arg. Tachwedd 1943, 3 arg. Rhagfyr 1943).
23. J R Lloyd-Hughes, *Cap y Cythraul*, Chwefror 1944 (2 arg. Chwefror 1944, 3 arg. Ebrill 1944).
24. T Gwynn Jones, *Brithgofion*, Awst 1944.
25. W Ambrose Bebb, *Yr Ysgol Sul*, Medi 1944.
26. [Amryw o awduron], *Coed Tân a Storiau Eraill*, Rhagfyr 1944 (2 arg. Ionawr 1945).
27. D Tecwyn Evans, gol., *Gweddiau*, Ionawr 1945 (2 arg. Chwefror 1945).
28. Elfed, *Lampau'r Hwyr*, Mai 1945 (2 arg. Mehefin 1945).
29. Idris Thomas [R T Jenkins], *Ffynhonnau Elim*, Mai 1945.
30. Ifor Williams, *Meddwn i (wrth sgwrsio ar y radio)*,
31. Maupassant, cyf. Gwenda Gruffydd, *Yr Aelwyd a storiau eraill*, 1946.
32. Islwyn Williams, *Cap Wil Tomos a storiau eraill*, 1946.
33. J Ellis Williams, *Y gŵr drws nesaf (a 'sglodion eraill)*, 1946.
34. Martin Lloyd Jones, *Crefydd heddiw ac yfory*, 1947.
35. Jac L Williams, *Straeon y Meirw*, 1947.
36. J E Williams, *Straeon J.E.*, Ebrill 1947.
37. Gomer Morgan Roberts, *Chwedlau Dau Fynydd*, [Ionawr 1948].

*Parhad ar dudalen 24*